

| | |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Teitl: Asesiad o Effaith cynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ar ddyfodol Llys Ynadon Castell Nedd Rhif yr Asesiad: MoJ213 Adran neu asiantaeth arweiniol: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder Adrannau neu asiantaethau eraill: | Asesiad o Effaith |
| | Dyddiad: 23/08/2013 |
| | Cam: Ymgynghoriad |
| | Ffynhonnell yr ymyriad: Domestig |
| | Math o fesur: Deddfwriaeth sylfaenol |
| | Cyswllt ar gyfer ymholiadau |
| Crynodeb: Ymyriadau ac Opsiynau | Barn RPC: Amherthnasol |

| Cost yr opsiwn gorau (neu fwyaf tebygol) | | | | |
|------------------------------------------|----------------------------------|----------------------------------------------------------|------------------------------|---------------------|
| Cyfanswm Gwerth Presennol Net | Cyfanswm Gwerth Presennol Busnes | Cost net i'r busnes bob blwyddyn (EANCB ar brisiau 2009) | Cwmpas un i mewn, dau allan? | Mesur yn gymwys fel |
| £1.3m | £m | £m | Na | Amh |

Beth yw'r broblem sy'n cael ei hystyried? Pam mae angen ymyriad gan y llywodraeth?

Ar ôl sicrhau £14 miliwn o arian Ewropeaidd/Llywodraeth Cymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot yn ailddatblygu canol tref Castell Nedd yn sylweddol. Ystyrir bod cau a dymchwel Llys Ynadon Castell Nedd yn rhan hanfodol o'r gwaith adfywio. Mae costau gweithredu Llys Ynadon Castell Nedd oddeutu £620,000 y flwyddyn, a £300,000-£500,000 yw gwerth yr adeilad ar y farchnad. Yn 2012/13, gwnaethpwyd defnydd o 60% o Lys Ynadon Castell Nedd, a does dim gobaith i'r gwaith gynyddu yng Nghastell Nedd er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod y llys yn cael ei danddefnyddio. Mae angen ymyrraeth gan y Llywodraeth i leihau'r capasiti dros ben yn ystâd GLITEM yn Ne Cymru.

Beth yw amcanion y polisi a'r effeithiau bwriadedig?

Y nod yw lleihau'r capasiti dros ben yn ystâd GLITEM Cymru yn Ne Cymru a chaniatáu dechrau'r gwaith adfywio yn ardal leol Castell Nedd. Bwriedir symud y gwaith o Lys Ynadon Castell Nedd i Lys Ynadon Abertawe, sydd 9 milltir i ffwrdd.

Pa opsiynau polisi a ystyriwyd, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau eraill heblaw rheoleiddio? Cyfiawnhewch eich opsiwn gorau (manyllion pellach yn y sail dystiolaeth)

Opsiwn 1: Gwneud dim - cadw Llys Ynadon Castell Nedd yn weithredol.
 Opsiwn 2: Cau Llys Ynadon Castell Nedd a gwerthu'r adeilad i'r cyngor mor fuan â 1 Ionawr 2014 er mwyn hwyluso'r gwaith ailddatblygu yn y dref, yn ogystal â lleihau'r capasiti dros ben yn ystâd GLITEM yn Ne Cymru. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith o Lys Ynadon Castell Nedd yn symud i Lys Ynadon Abertawe.

Yr opsiwn gorau yw Opsiwn 2, sy'n lleihau'r capasiti dros ben yn ystâd GLITEM yn Ne Cymru, yn ogystal â chaniatáu dechrau'r gwaith adfywio yn ardal leol Castell Nedd. Mae Opsiwn 2 yn cynnig gwerth presennol net cadarnhaol i'r gymdeithas. Gwerth presennol net amcanol y prosiect yw £1.3m dros y cyfnod gwerthuso 5 mlynedd, yn dechrau yn 2013/14

| | | | | | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------|---------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------|
| A gaiff y polisi ei adolygu? Caiff/Ni chaiff ei adolygu. | | | | | |
| Os yn berthnasol, nodwch ddyddiad yr adolygiad: Mis/Blwyddyn | | | | | |
| A yw'r gweithredu'n mynd tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE? | | | | Ydy / Nac ydy / Amh | |
| A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn yn gymwys? Os nad yw'r Micros wedi'u heithrio, nodwch pam yn y sail dystiolaeth | Micro Oes/Nac oes | <20 Ydy/Nac ydy | Bach Ydy/ Nac ydy | Canolig Ydy/ Nac ydy | Mawr Ydy/ Nac ydy |
| Beth yw'r newid cyfwerth â charbon monocsid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr? (cyfwerth â miliwn tonnell o garbon monocsid) | | | Masnachwyd : | Heb eu masnachu | |

Rwyf wedi darllen yr Aseiad o Effaith ac rwyf yn fodlon, ac ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn rhoi golwg resymol ar gostau, buddion ac effaith debygol y prif ddewisiadau.

Llofnod y sawl â chyfrifoldeb: _____ Dyddiad _____

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiw'n Polisi 1

Disgrifiad:

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

| Sylfaen Pris Blwyddyn 2013 | Sylfaen GP Blwyddyn 2013 | Cyfnod Amser Blynyddoedd 5 | Budd Net (Gwerth Presennol (GP) (£m)) | | |
|----------------------------------|--------------------------------|----------------------------------|---------------------------------------|--------|---------------------------|
| | | | IseL: | Uchel: | Amcangyfrif gorau: £0m |

| COSTAU (£m) | Cyfanswm newid (Pris Cyson) Blwyddyn | Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys newid)(Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|-------------------|-----------------------------------------|-------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
| IseL | | | |
| Uchel | | | |
| Amcangyfrif Gorau | | | |

Disgrifiad o'r costau ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Byddai GLITEM yn parhau i ariannu'r gost gweithredu barhaus ar gyfer Llys Ynadon Castell Nedd o £620 mil y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys costau staff, costau TG, cyfleustodau, gwasanaethau eiddo a chynnal a chadw a gwariant arall yn berthnasol i'r swyddfa.

Costau anariannol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

| BUDDION (£m) | Cyfanswm newid (Pris Cyson) Blwyddyn | Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys newid)(Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|-------------------|-----------------------------------------|-------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
| IseL | | | |
| Uchel | | | |
| Amcangyfrif Gorau | | | |

Disgrifiad o'r buddion ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Buddion anariannol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

| | |
|--------------------------------------------------|------------------------------|
| Tybiaethau/sensitifeddu/risgiau allweddol | Cyfradd disgownt 3.5% |
| | |

ASESIAD BUSNES (Opsiw 1)

| | | | | |
|--------------------------------------------------------------|-----------------|-------------|-----------------------------|-------------------------------|
| Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cywerth Blynyddol) £m | | | O fewn cwmpas OOIOO? | Mesur yn gymwys fel |
| Costau: | Buddion: | Net: | Ydy/Nac ydy | MEWN/ALLAN/ Dim costau net |

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth **Opsiw Polisi 2**

**Disgrifiad:
ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

| Sylfaen Pris Blwyddyn 2013 | Sylfaen GP Blwyddyn 2013 | Cyfnod Amser Blynyddoedd 5 | Budd Net (Gwerth Presennol (GP) (£m)) | | |
|----------------------------|--------------------------|----------------------------|---------------------------------------|--------|--------------------------|
| | | | Isel: | Uchel: | Amcangyfrif gorau: £1.3m |

| COSTAU £m) | Cyfanswm newid (Pris Cyson) Blwyddyn | Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys newid)(Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|--------------------------|---------------------------------------------|--------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|
| Isel | | | |
| Uchel | | | |
| Amcangyfrif Gorau | £0.23m | £0.05m | £0.48 |

Disgrifiad o'r costau ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
 Y prif gostau trosglwyddo yw £150,000 (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig) ar gyfer cwblhau'r gwaith yn Llys Ynadon Abertawe. Yr unig gostau parhaus yw costau teithio cynyddol ar gyfer defnyddwyr y llys, sydd, ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig, wedi'i amcangyfrif i fod yn £49,000 y flwyddyn.

Costau anariannol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
 Efallai bydd gan rai aelodau o'r staff a'r farnwriaeth gostau mymryn uwch oherwydd bydd rhaid iddynt deithio yn bellach i Lys Ynadon Abertawe.

| BUDDION £m) | Cyfanswm newid (Pris Cyson) Blwyddyn | Cyfartaledd Blynyddol (heb gynnwys newid)(Pris Cyson) | Cyfanswm Cost (Gwerth Presennol) |
|--------------------------|---------------------------------------------|--------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|
| Isel | | | |
| Uchel | | | |
| Amcangyfrif Gorau | £1.6m | £0.1m | £1.8m |

Disgrifiad o'r buddion ariannol allweddol, a'u maint, gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Y buddion pennaf i'r newid yw arbed yr angen i fuddsoddi £1.3m ar gyfer cwblhau gwaith cynnal a chadw yn Llys Ynadon Castell Nedd. Amcangyfrifir gwerth adeilad Llys Ynadon Castell Nedd ar y farchnad yn £300,000 (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig).

Buddion anariannol eraill gan y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu gwneud y gwaith adfywio yn ardal Castell Nedd. Bydd llawer o fuddion o ganlyniad i'r gwaith adfywio, er enghraifft, swyddi a chynnydd mewn masnach leol. Fodd bynnag, ni phenwyd gwerth ariannol ar y buddion hyn.

Tybiaethau/sensitifeddu/risgiau allweddol**Cyfradd disgownt 3.5%**

Ni ddisgwylir i'r llwyth gwaith ac amseroedd aros ar gyfer defnyddwyr y llys newid.

ASESIAD BUSNES (Opsiw 2)

| Effaith uniongyrchol ar fusnes (Cywerth Blynnyddol) £m | | | O fewn cwmpas OOIOO? | Mesur yn gymwys fel |
|--------------------------------------------------------|----------|------|----------------------|---------------------------|
| Costau: | Buddion: | Net: | Ydy/Nac ydy | MEWN/ALLAN/Dim costau net |

Y sail dystiolaeth (ar gyfer dalenni crynodeb)**Rhagarweiniad**

1. Mae'r Asesiad Effaith hwn, sy'n mynd gyda phapur ymgynghori (PYxx/13) y Weinyddiaeth Cyfiawnder, yn archwilio'r opsiynau ar gyfer cau safle GLITEM yn Llys Ynadon Castell Nedd. Yr opsiwn gorau yw cau Llys Ynadon Castell Nedd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o'r gwaith i Lys Ynadon Abertawe.

Sail Resymegol

2. Yn dilyn sicrhau arian Ewropeaidd a chymorth ariannol Llywodraeth Cymru i adfywio'r dref, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn ystyried bod caffael safle'r llys ynadon yn rhan hanfodol o unrhyw waith i adfywio Canol y Dref. Gellir trosglwyddo'r rhan fwyaf o'r gwaith o Lys Ynadon Castell Nedd i Lys Ynadon Abertawe, sydd 9 milltir i ffwrdd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn dymuno caffael yr adeilad erbyn mis Ionawr 2014 i osgoi unrhyw oedi pellach i'r gwaith adfywio.
3. Yn ystod y camau ceisiadau ar gyfer prosiect newydd Menter Cyllid Preifat Canol Tref Castell Nedd yn 2006-07, bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot wneud cynnig i Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, fel yr oedd ar y pryd, i geisio adleoli'r llys i sicrhau trosglwyddo deiliadaeth rydd safle'r llys ynadon i'r awdurdod lleol.
4. Y cynllun gwreiddiol oedd adeiladu llys newydd ar safle arall yn y dref. Amcangyfrifir y byddai hyn wedi costio £6.5m. Fodd bynnag, pan newidiodd y sefyllfa ariannol, hysbyswyd yr Awdurdod Lleol fod y cynllun Menter Cyllid Preifat llawn yn rhy ddrud.
5. Yn 2010, cafwyd ymdrech o'r newydd gan yr Awdurdod Lleol mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru i wneud "Cynllun Adfywio Canol Tref Castell Nedd". Ystyriwyd yr angen i sicrhau safle'r llys ynadon yn hanfodol i unrhyw gynllun adfywio yng Nghanol y Dref. Drwy ymgynghoriad yn 2009-2011, cynigwyd nifer o opsiynau i WLITEM adleoli'r llys ynadon presennol, a'r cynllun addas a gytunwyd arno oedd

ailwampio Llys Sirol Castell Nedd a Phort Talbot i fod yn llys ynadon, fyddai wedi costio £1.4m i'w gwblhau. Cytunwyd y byddai'r awdurdod lleol yn ariannu'r cynllun hwn (a gytunwyd arno fel cyfaddawd i gael adeilad newydd) gydag arian Ewropeaidd a chymorth ariannol Llywodraeth Cymru.

6. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o ystâd GLITEM ar ddechrau 2013, penderfynwyd nad oes digon o ofyniad busnes am lys ynadon yng Nghastell Nedd, felly ni fyddai gwario unrhyw arian cyhoeddus yng Nghastell Nedd yn sicrhau gwerth am arian. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn parhau i fynegi dymuniad cryf am amserlen a chynllun i gael mynediad at adeilad y llys ynadon erbyn mis Ionawr 2014. Ni fyddai unrhyw awdurdod lleol yn cefnogi ar goedd trosglwyddo gwasanaethau cyhoeddus i awdurdod lleol arall, ond ni fyddant ychwaith yn nodi unrhyw wrthwynebiad cryf i'r cynigion i gau'r llys, os mai dyma fydd y penderfyniad a wneir o ganlyniad i ymgynghoriad.
7. Mae adeilad Llys Ynadon Castell Nedd yng nghanol yr ardal sy'n cael ei ailddatblygu. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi mynegi diddordeb ers peth amser i brynu adeilad y llys ynadon, ac wedi cyflwyno cais cynllunio tra'u bod mewn trafodaethau â Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM i ddymchwel yr adeilad, os mai'r farn gyffredin yn dilyn yr ymarfer ymgynghori hwn yw y dylem gau Llys Ynadon Castell Nedd a throsglwyddo'r staff a'r llwyth gwaith i Llys Ynadon Abertawe sydd gerllaw.
8. Gellir trosglwyddo'r llwyth gwaith troseddol o Llys Ynadon Castell Nedd i Llys Ynadon Abertawe, sydd 9 milltir i ffwrdd. Hwylusir y symud ymhellach drwy drosglwyddo gwrandawiaidau Llys Achosion Teulu Abertawe o Llys Ynadon Abertawe i Ganolfan y Llysoedd Sifil Abertawe. Mae lle ar gael yn Llys Ynadon Abertawe i gymryd y llwyth gwaith, a byddai pob aelod o'r staff yn trosglwyddo i Llys Ynadon Abertawe. Mae'n adeilad llys modern sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol, gyda chysylltiadau trafnidiaeth da, cyfleusterau ardderchog, ac mae'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb. O ganlyniad, gwneir gwell defnydd o ystafelloedd llys yn Llys Ynadon Abertawe. Bydd yn golygu rhagor o amser teithio i rai defnyddwyr y llys, sydd wedi'i gynnwys yn y gwerthusiad economaidd.
9. Gellir trosglwyddo'r llwyth gwaith teulu i Llys Sirol Castell Nedd a Phort Talbot, ac ni fydd angen gwneud unrhyw beth i gyflawni hyn. Ystyrir bydd y newid mewn amser teithio i ddefnyddwyr y llys ar gyfer gwaith teulu yn fach iawn. Trosglwyddir y gyfran fechan o waith triwilysoedd a gyflawnir yn Llys Ynadon Castell Nedd i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot - canolfan llysoedd a thriwilysoedd newydd sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol.

Y lefelau defnydd

10. Ystyriwyd yr wybodaeth hon yn erbyn capasiti h.y. nifer yr ystafelloedd llys yn hytrach na threfn y llysoedd. Mae tair ystafell llys yn Llys Ynadon Castell Nedd a chwe ystafell llys yn Llys Ynadon Abertawe. Byddai symud y gwaith troseddol o Llys Ynadon Castell Nedd i Llys Ynadon Abertawe yn cael ei hwyluso gan gynlluniau sydd eisoes yn bod i symud gwaith teulu o Llys Ynadon Abertawe i Ganolfan y Llysoedd Sifil Abertawe. Felly, rydym wedi eithrio gwaith teulu o'n cyfraddau defnydd, sy'n cynyddu'r defnydd a wneir o Llys Ynadon Abertawe o 51% yn Opsiwn 1 i 80% yn Opsiwn 2.
11. Cyfrifwyd maint y llwyth gwaith ar gyfer Llys Ynadon Abertawe yn Opsiwn 1 o'r gwir oriau eistedd yn 2012/13. Fodd bynnag, eithriwyd gwaith teulu a'r triwilysoedd oherwydd tybir y byddant yn trosglwyddo i lysoedd eraill yn ystâd GLITEM yn Ne Cymru, pa un a fydd Llys Ynadon Castell Nedd yn cau ai peidio. Hefyd, tybir dan opsiwn 2 bod y 90 awr o waith teulu yn Llys Ynadon Castell Nedd yn trosglwyddo i Llys Sirol Castell Nedd, a'r 43 awr o waith triwilysoedd yn trosglwyddo i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot.

Tabl 1: Y lefelau defnydd ar gyfer opsiwn 1 a 2

| | Court Rooms | Hours available | Estimated Workload (hours) | Utilisation |
|----------------------------|-------------|-----------------|----------------------------|-------------|
| Option 1 | | | | |
| Neath Magistrates' Court | 3 | 3720 | 2234 | 60% |
| Swansea Magistrates' Court | 6 | 7440 | 3815 | 51% |
| Option 2 | | | | |
| Neath Magistrates' Court | 3 | 3720 | 0 | 0% |
| Swansea Magistrates' Court | 6 | 7440 | 5917 | 80% |

Amcan polisi a'r cwmpas

12. Amcanion y polisi yw cynyddu'r defnydd a wneir o ystâd GLITEM a galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot i fynd ymlaen â'r prosiect adfywio. Bydd y polisi hefyd yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith posibl cau'r llys ar ddefnyddwyr y llys a'r tribiwnlys, ar fynediad at gyfiawnder, ar amseroedd teithio i ddefnyddwyr, yn ogystal â'r her o ran mynediad i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw gamau lliniarol ble mae cynnydd sylweddol i amseroedd teithio.

Sail resymegol ar gyfer ymyrraeth

13. Mae'r dull economaidd confensiynol o ymyrraeth gan y Llywodraeth yn seiliedig ar ddadleuon effeithlonrwydd neu degwch. Gall y Llywodraeth ymyrryd os oes methiant clir yn y ffordd mae marchnad yn cael ei gweithredu ("methiannau'r farchnad) neu os hoffai gywiro gwyriadau sefydliadol presennol (methiannau llywodraeth"). Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymyrryd am resymau tegwch. Yn yr achos hwn, gellir cyfiawnhau ymyrryd ar sail effeithlonrwydd yn bennaf.
14. Amcangyfrifir y byddai cau Llys Ynadon Castell Nedd yn golygu bod y defnydd a wneir o Lys Ynadon Abertawe yn cynyddu o 51% i 80%.
15. Byddai gwerthu adeilad Llys Ynadon Castell Nedd yn galluogi gwneud defnydd mwy effeithiol o'r tir drwy brosiect adfywio yn weddol rad oherwydd gellir symud gwaith y llys i Lys Ynadon Abertawe sydd 9 milltir i ffwrdd. Mae hyn yn cynyddu effeithlonrwydd Llys Ynadon Abertawe hefyd.

Grwpiau yr effeithir arnynt

- Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Eryl y Goron
- Prawf (NOMS Cymru)
- PECS (Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa)
- Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc
- Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion
- Holl ddefnyddwyr y Llys
- Y Farnwriaeth
- Busnesau Lleol

Egwyddorion sy'n sail i'r dadansoddiad cost a buddion

16. Mae'r Asesiad Effaith hwn yn adnabod, hyd y gellir, effeithiau ariannol ac effeithiau nad ydynt yn ariannol, gyda'r nod o ddeall effaith net y newid hwn ar gymdeithas.
17. Dehonglir y dadansoddiad cost a buddion yn fras, i gynnwys costau a buddion ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol, gan roi'r pwys priodol ar rai nad ydynt yn ariannol.
18. De Cymru yw cwmpas daearyddol yr Asesiad Effaith hwn.

Opsiwn Polisi 1: Gwneud dim

19. Mae'r opsiwn "gwneud dim" yn gosod y rhagdybiaethau pe byddai GLITEM yn dewis peidio â chau a gwerthu Llys Ynadon Castell Nedd a bod yr adeilad yn parhau'n weithredol;
 - Ni fydd unrhyw gost ynghlwm wrth gau'r safle.
 - Nid yw'n debygol y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot yn gallu adfywio'r ardal
 - Byddai'r lefelau defnydd yn parhau'n isel yn Llys Ynadon Castell Nedd ac yn Llys Ynadon Abertawe.

- Amcangyfrifir y byddai angen gwario £1.3m ar waith cynnal a chadw hanfodol dros y ddwy flynedd nesaf os na fydd y llys yn cau.

Opsiwn Polisi 2: Cau Llys Ynadon Castell Nedd

- Byddai ychydig o gostau ynghlwm wrth gau a gwerthu'r safle
- Mae'n debygol y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot yn gallu adfywio'r ardal
- Byddai'r lefelau defnydd yn Llys Ynadon Abertawe yn gwella
- Arbedion o £100,000 mewn costau gweithredu blynyddol

Costau a buddion

20. Mae'r costau a buddion canlynol ynghlwm wrth Opsiwn 2;

Costau newid (ariannol)

21. Ar gyfer GLITEM, bydd costau newid o ganlyniad i:

- Gostau adleoli: Mae hyn yn cynnwys costau sy'n berthnasol i adleoli gwaith, staff ac offer (fel cludo dogfennau) rhwng safleoedd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £3,000 (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig a TAW).
- Digomisiynu TG: Disgwylir costau cysylltiedig â digomisiynu TG yn Llys Ynadon Castell Nedd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £50,000 (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig).
- Gwaith Galluogi: Dyma'r gost o gwblhau gwaith i alluogi Llys Ynadon Abertawe i dderbyn gwaith o Lys Ynadon Castell Nedd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £150,000 (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig).
- Costau teithio: Dyma amcangyfrif o gost y cynnydd mewn amser teithio'r cyhoedd o ganlyniad i orfod teithio i Abertawe yn hytrach na Chastell Nedd. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £49,000 y flwyddyn (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig).
- Costau wrth werthu: Dyma'r ffioedd cyfreithiol sydd ynghlwm wrth werthu'r adeilad, amcangyfrif o £2,000 (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig). Tybiwyd na fydd unrhyw gostau marchnata oherwydd y canfuwyd prynwr yn barod.
- Costau prosiect: Disgwylir costau prosiect bychain eraill (sydd ddim wedi'u nodi uchod) oherwydd disgwylir bod cau'r llys yn cael ei gyflawni fel rhan o fusnes fel arfer.

Costau newid (nad ydynt yn ariannol)

22. Ar gyfer GLITEM, bydd costau untro nad ydynt yn ariannol o ganlyniad i:

- "Costau ymgynefino ac ymwybyddiaeth": Bydd costau ymgynefino ac ymwybyddiaeth ar gyfer defnyddwyr y llys mewn perthynas ag ym mhle mae'r llys agosaf. Yn yr un ffordd, efallai y bydd yn cymryd peth amser i staff sefydlu eu hunain yn eu man gwaith newydd, yn enwedig gan fod rhai arferion gwaith ychydig yn wahanol rhwng llysoedd. Nodwyd y pwynt hwn, ond ni ddisgwylir i hyn gael effaith sylweddol.

Costau parhaus (ariannol)

GLITEM

23. Efallai bydd cynnydd bychan yng nghostau Llys Ynadon Abertawe o ganlyniad i'r cynnydd yn y defnydd a wneir ar gyfleustodau, costau cynnal a chadw a chostau amrywiadwy uwch (fel argraffu, postio a theleffoni). Fodd bynnag, disgwylir i'r cynnydd hwn fod yn fach iawn.

Buddion newid (ariannol)

24. Amcangyfrifir bod gwerth Llys Ynadon Castell Nedd ar y farchnad, heb y rhaglen adfywio, rhwng £300,000 i £500,000 (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig). Defnyddiwyd £300,000 yn ein dadansoddiad i fod yn geidwadol.
25. Amcangyfrifir arbedion mewn costau cynnal a chadw o £1.3m dros y ddwy flynedd nesaf. Mae angen hyn i osod ffenestri newydd, to newydd, atgyfnerthu strwythurol oherwydd oed y concrit a dirywiad, a gwella'r cyfleusterau yn y ddalfa.

Buddion parhaus (ariannol)

26. Ar gyfer GLITEM, byddai'r buddion economaidd parhaus oddeutu £110,000 y flwyddyn (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig). Mae hyn o ganlyniad i'r arbedion o ran costau is gweithredu'r cyfleusterau. Bydd rhai costau gweithredu Llys Ynadon Castell Nedd yn trosglwyddo i Lys Ynadon Abertawe (e.e. costau staff), ond bydd rhai yn cael eu harbed. Mae hyn yn cynnwys cyfleustodau, glanhau, gwaredu gwastraff, diogelwch a chynnal a chadw. Amcangyfrifir cyfanswm arbedion o £110,000 y flwyddyn (ac eithrio gogwydd tuag at fod yn optimistig).
27. Tybir na fydd unrhyw arbedion staff ynghlwm wrth gau Llys Ynadon Castell Nedd gan y bydd staff yr effeithir arnynt yn symud i Lys Ynadon Abertawe neu lysoedd eraill yng Nghymru. Efallai yr effeithir ychydig ar yr aelodau o staff dan sylw (newidiadau i drefniadau teithio), ond bydd GLITEM yn ceisio sicrhau bod yr effaith hwn mor fach â phosib.

Effeithiau eraill nad ydynt yn ariannol

28. Byddai cau Llys Ynadon Castell Nedd yn caniatáu dechrau'r gwaith adfywio yn yr ardal leol. Mae'n debygol y ceir nifer o fuddion economaidd, fel cynnydd mewn cyflogaeth a masnach leol. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl rhoi gwerth ariannol ar y buddion hyn.

Effaith ar y Farnwriaeth / Ynadon

29. Bydd y costau barnwrol hefyd yn trosglwyddo o Lys Ynadon Castell Nedd i Lys Ynadon Abertawe (gan gynnwys yr ynadaeth), felly ni fydd unrhyw effaith net.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

30. Ni ddisgwylir i hyn gael effaith anffafriol o fewn ein rhiant-sefydliad.

Yr Heddlu

31. Mae'n annhebygol i gael unrhyw effaith anffafriol ar yr Heddlu, ac mae'n bosib y bydd rhai buddion cadarnhaol. Mae Pencadlys Rhanbarthol Heddlu De Cymru ar gyfer Gorllewin Morgannwg yn Abertawe, union gyferbyn ag adeilad Llys Ynadon Abertawe.

Gwasanaeth Eryln y Goron

32. Bydd yr effaith a geir ar Wasanaeth Eryln y Goron yn gadarnhaol. Mae swyddfeydd Gwasanaeth Eryln y Goron o fewn Swyddfa'r Heddlu yn Abertawe, gyferbyn â'r llys, a ni fydd rhaid iddynt deithio i Lys Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot ddim mwy.

Prawf (NOMS Cymru)

33. Disgwylwn i'r effaith ar y Gwasanaeth Prawf fod yn fach iawn, ac mae'n debygol i fod yn gadarnhaol. Bydd gan y Gwasanaeth Prawf un llys yn llai i'w wasanaethu. Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Prawf yn defnyddio'r ystafelloedd yn adeilad y llys i gwblhau'r gwaith sy'n deillio o'r llysoedd. Bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf adleoli eu staff.

PECS (Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa)

34. Disgwylwn i hyn gael effaith gadarnhaol ar PECS. Rhagwelir y bydd yr Heddlu yn cadw pob carcharor a gedwir yn dilyn cyhuddiad yng Ngorllewin Morgannwg yn y ddalfa yn Abertawe. Golyga hyn na fydd rhaid i gontractwyr PECS gludo carcharorion o Abertawe ar gyfer gwrandawiadau yng Nghastell Nedd a Phort Talbot. Mae'r carchar lleol ar gyfer oedolion sy'n ddynton hefyd yn Abertawe, ac ni fydd rhaid cludo carcharorion yn ôl ag ymlaen o Lys Ynadon Castell Nedd a Phort Talbot.

Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc

35. Mae gan awdurdodau lleol Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot eu Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc eu hunain. Fodd bynnag, mae'r llwyth gwaith ar gyfer y llysoedd ieuenctid priodol yn isel iawn; ac mae un Panel Ieuenctid Cyfunol ar gyfer Gorllewin Morgannwg yn barod. O ystyried bod Castell Nedd Port Talbot ac Abertawe mor agos, byddai wedi bod yn angenrheidiol ystyried lleoli pob gwrandawriad yn Abertawe beth bynnag. Rhagwelir y bydd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc ar gyfer y ddau awdurdod lleol eisiau gweithio'n agosach gyda'i gilydd, yn arbennig gyda chyflawni gwaith perthnasol i'r llys, er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd.

Gwasanaethau Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion

36. Golyga'r effaith ar y Gwasanaeth Cymorth i Ddiodefwyr a'r Gwasanaeth Tystion y bydd angen i'r sefydliadau hyn newid pwyslais eu gwaith, i ddarparu parhad gwasanaeth, gan sicrhau fod cefnogaeth gwaith maes ac yn y llys yn parhau.

Holl ddefnyddwyr y Llys

37. Oherwydd bod Port Talbot, Castell Nedd ac Abertawe yn agos i'w gilydd, ac yn gysylltiedig â phrif linell rheilffordd Paddington i Abertawe, gyda gwasanaethau aml, bydd yr effaith ar ddefnyddwyr y llys yn weddol isel. Mae rhwydwaith ffyrdd ardderchog yn cysylltu'r tair tref hefyd.

Busnesau Lleol

38. O ystyried y gwaith adfywio mae'r Cyngor yn ei wneud yn y dref, ni ddylai busnesau newydd a rhai presennol wrthwynebu'n cynlluniau.

Crynodeb o'r effaith

39. Cynhelir gwerthusiad economaidd dros gyfnod o 5 mlynedd yn dechrau yn 2013/14. Yn nhermau gwerth cyfredol, mae costau economaidd o £480,000 ynghlwm wrth opsiwn polisi 2, a buddion economaidd o £1,780,000 ar gyfer gwerth cyfredol net cyffredinol o £1,300,000.

Tabl 2 – Crynodeb o'r effaith ariannol (£000s) Opsiwn 2 – gan gynnwys gogwydd tuag at fod yn optimistig

| Figures in £000s, real values | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|-------------------------------|--------------|------------|------------|------------|------------|
| <i>Costs (excl VAT)</i> | | | | | |
| Decant costs | 4 | - | - | - | - |
| IT decommissioning | 60 | - | - | - | - |
| Enabling works | 165 | - | - | - | - |
| Travel costs | 54 | 54 | 54 | 54 | 54 |
| Disposal Costs | 2 | | | | |
| Total cost | 285 | 54 | 54 | 54 | 54 |
| | | | | | |
| NPV costs (4yrs) | 483 | | | | |
| <i>Benefits</i> | | | | | |
| Operating cost savings | 25 | 101 | 101 | 101 | 101 |
| Building value | | 158 | - | - | - |
| Regeneration | | 25 | 25 | 25 | 25 |
| Maintenance savings | | 585 | 585 | | |
| Total benefit | 25 | 869 | 711 | 126 | 126 |
| | | | | | |
| NPV benefits (4yrs) | 1,752 | | | | |
| | | | | | |
| Net benefit | (260) | 815 | 657 | 72 | 72 |
| | | | | | |
| NPV (4yrs) | 1,269 | | | | |

Risgiau a Rhagdybiaethau

40. Rhagdybir nad oes unrhyw newid o ran nifer yr achosion llys, dim newid mewn ffioedd llys a dim newid i amseroedd aros defnyddiwr llys tra byddant yn y llys.
41. Rhagdybir na fydd unrhyw effaith ar ddarparu gwasanaeth.
42. Rhagdybir y bydd costau barnwrol yn aros yr un fath.
43. Rhagdybir na fydd yn effeithio ar y gallu i wrando ar achosion yn y llys ynadon.
44. Rydym wedi rhagdybio y byddai trosglwyddo Llys Ynadon Castell Nedd dan Opsiwn 2 yn digwydd ym mis Ionawr 2014 ac yn costio £50,000. Mae risg y gall cost datgomisiynu TG gynyddu er mwyn sicrhau y gellir trosglwyddo'r adeilad ym mis Ionawr 2014.
45. Mae nifer o'r costau a'r buddion yn annelwig. I gymryd tueddiad systematig gwerthuswyr prosiect i fod yn optimistig i ystyriaeth, rydym wedi gosod y ffigurau gogwydd tuag at fod yn optimistig a ddangosir yn Nhabl 3.

Tabl 3: Gogwydd tuag at fod yn optimistig

| Costau/Buddion | Gogwydd rhagdybiedig tuag at fod yn optimistig |
|------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|
| Arbedion cyfleustodau (diogelwch, glanhau, cynnal a chadw) | 10% |
| Arbedion gwerthu'r eiddo | 10% |
| Arbedion buddsoddi mewn cynnal a chadw | 10% |
| Costau adleoli | 10% |
| Costau gwaith galluogi | 10% |
| Costau teithio cynyddol | 10% |
| Costau wrth werthu | 10% |
| Costau datgomisiynu TG | 20% |

Senarios a sensitifrwydd

Cynnydd yn y llwyth gwaith

46. Mae risg i'r llwyth gwaith gynyddu. Os byddai'r llwyth gwaith yn cynyddu 10% yn Llys Ynadon Abertawe, byddai'r defnydd a wneir ohono'n cynyddu i 87%. Os byddai'r llwyth gwaith yn cynyddu 20% yn Llys Ynadon Abertawe, byddai'r defnydd a wneir ohono'n cynyddu i 95%. Nid yw'n debygol y byddai'r lefel defnydd hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Fodd bynnag, gellir rheoli cynnydd mor sylweddol â hyn yn y llwyth gwaith drwy fanteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd yr adran rhestru, ychwanegu capasiti (er enghraifft, ystafelloedd ychwanegol neu ragor o ddiwrnodau eistedd), neu drwy ailddyrrannu gwaith ar draws yr ardal leol.

Tabl 4: Dadansoddiad sensitifrwydd ar y llwyth gwaith

| | Court Rooms | Hours available | Estimated Workload (hours) | Utilisation |
|--------------------------|-------------|-----------------|----------------------------|-------------|
| Estimated Workload | 6 | 7440 | 5917 | 80% |
| Estimated Workload + 10% | 6 | 7440 | 6509 | 87% |
| Estimated Workload + 20% | 6 | 7440 | 7101 | 95% |

Lleihad mewn arbedion costau cynnal a chadw

47. Gan mai'r arbedion o ran costau cynnal a chadw yw'r budd ariannol pennaf yn Opsiwn 2, rydym wedi cwblhau dadansoddiad sensitifrwydd bras iawn ar y budd hwn. Yn yr achos eithaf ble nad oes unrhyw arbedion costau cynnal a chadw, £158,000 yw Gwerth Presennol Net opsiwn 2. Nid yw'n debygol i hyn yn digwydd o gwbl, ond mae'n dangos y byddai'r prosiect yn parhau i fod â gwerth presennol net cadarnhaol i gymdeithas hyn yn oed os yw'r arbedion costau cynnal a chadw yn lleihau.

Effeithiau ehangach

Effaith ar amseroedd teithio

48. Mae Llys Ynadon Castell Nedd naw milltir i ffwrdd o Lys Ynadon Abertawe.
49. Rydym wedi amcangyfrif, yn dilyn cau Llys Ynadon Castell Nedd, y byddai'r amser teithio cyfartalog yn cynyddu o 14 munud i 25 munud mewn car, a 34 munud i 59 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus. Defnyddiwyd cynllunydd siwrnai'r Adran Drafnidiaeth i gyfrifo'r amseroedd teithio ychwanegol mewn car ac ar drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA, 400-1200 cartref) sy'n dod dan ardal Llys Ynadon Castell Nedd i deithio i Lys Ynadon Abertawe.
50. Yr amcangyfrif cymedrig ar gyfer cost flynyddol y cynnydd hwn mewn amseroedd teithio yw £49,000. Mae hyn yn seiliedig ar amseroedd teithio'r Adran Drafnidiaeth. Fodd bynnag, mae ystod ein hamcangyfrifon rhwng £10,000 a £110,000. Mae hyn ar gyfer cymryd i ystyriaeth y gwahanol werthoedd amser yn ddibynnol yn bennaf ar ba un ai yw'n amser gwaith ai peidio.

| Breakdown of Population by Travel Time | Neath Magistrates Court- Travel Times (min) | | | |
|---------------------------------------------------|---------------------------------------------|--------------|------------------|--------------|
| | Car | | Public Transport | |
| | Pre-Closure | Post-Closure | Pre-Closure | Post-Closure |
| Population within 30 minutes | 91% | 85% | 56% | 3% |
| Population living between 30 and 60 minutes away | 9% | 15% | 32% | 62% |
| Population living between 60 and 90 minutes away | 0% | 0% | 6% | 27% |
| Population living between 90 and 120 minutes away | 0% | 0% | 6% | 6% |
| Population living more than 120 minutes away | 0% | 0% | 0% | 3% |
| Average Travel Time | 14 | 25 | 34 | 59 |

| Breakdown of Population by Travel Time | Wales Magistrates Courts - Travel Times (min) | | | |
|---------------------------------------------------|-----------------------------------------------|--------------|------------------|--------------|
| | Car | | Public Transport | |
| | Pre-Closure | Post-Closure | Pre-Closure | Post-Closure |
| Population within 30 minutes | 86% | 85% | 41% | 39% |
| Population living between 30 and 60 minutes away | 13% | 13% | 40% | 41% |
| Population living between 60 and 90 minutes away | 2% | 2% | 9% | 10% |
| Population living between 90 and 120 minutes away | 0% | 0% | 3% | 3% |
| Population living more than 120 minutes away | 0% | 0% | 7% | 7% |
| Average Travel Time | 18 | 19 | 92 | 92 |

Trenau

51. Mae'r orsaf drefnau agosaf i Lys Ynadon Castell Nedd bum munud i ffwrdd ar droed o'r llys.
52. Mae'r orsaf drefnau agosaf i Lys Ynadon Abertawe saith munud i ffwrdd ar droed o'r llys. Mae'n cymryd 13 munud ar drên i deithio rhwng Castell Nedd ac Abertawe, ac mae'n costio £2.60.

Mewn car

53. Mae Llys Ynadon Castell Nedd 9.6 milltir i ffwrdd o Lys Ynadon Abertawe, ac mae'n cymryd 20 munud ychwanegol, sy'n costio £0.49 mewn tanwydd.

Bysiau

54. Mae gwasanaeth bws rheolaidd ar gael yn ystod y dydd. Y dair ganolfan boblogaeth fwyaf yn dalgylch Llys Ynadon Castell Nedd yw Port Talbot, Blaendulais a Glyn-nedd, sydd â chysylltiadau bws drwy Gastell Nedd, ac mae'r costau teithio rhwng £4.50 a £9.00 am docyn dwyffordd.

Effeithiau ar Gydraddoldeb

55. Dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf"), wrth arfer ei swyddogaethau, mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ddyletswydd gyfreithiol i roi'r 'sylw dyledus' i'r angen i:
- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddwch ac annhegwch, ac ymddygiad gwaharddedig arall dan y Ddeddf;
 - Cynyddu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a rhai sydd ddim); a
 - Meithrin perthnasau da rhwng gwahanol grwpiau.
56. Yn unol â'n cyfrifoldebau dan ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi ystyried, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, effeithiau tebygol y cynnig arfaethedig i gau'r llys ar unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig. I wneud hyn, rydym wedi cymharu cyfleusterau yn y ddau lys, ac wedi ystyried yr amseroedd teithio, costau a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat rhwng y ddau lys.
57. Ar hyn o bryd, mae carcharorion yn mynd i mewn ac allan o gerbydau yn Llys Ynadon Castell Nedd mewn cwrt bychan cyfagos i'r adeilad nad yw'n ddiogel, sy'n golygu bod risg o ran diogelwch i ddefnyddwyr y llys. Mae cyfleusterau gwell a mwy diogel ar gyfer dadlwytho carcharorion yn Abertawe, felly mae'n cael gwared â'r risg diogelwch i ddefnyddwyr y llys.
58. Nid yw Llys Ynadon Castell Nedd yn hollol hygyrch ar gyfer pob anabl, tra bod 4 ystafell Llys Ynadon Abertawe yn hygyrch. Gan fod Abertawe (opsiwn 2) yn cynnig cyfleusterau gwell ar gyfer pobl anabl, dyma'r dewis gorau oherwydd ei fod yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl. At hynny, yn unol â'i rwymedigaeth dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan WLITEM bolisi addasiadau rhesymol, sy'n sicrhau y cymerir camau rhesymol i ddiwallu unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan ddefnyddwyr anabl y llys.
59. Mae'r dadansoddiad o amseroedd teithio ym mharagraff 48. Daw i'r casgliad fod trafnidiaeth gyhoeddus reolaidd, fforddiadwy a hygyrch rhwng Castell Nedd ac Abertawe. Felly, ni chredwn y byddai cau Llys Ynadon Castell Nedd yn cael effaith anffafriol ar gydraddoldeb ar gyfer unrhyw ddefnyddwyr y llys gyda nodweddion gwarchoddedig.
60. Rydym yn croesawu adborth ar ein hasesiad cychwynnol o effeithiau tebygol ar gydraddoldeb i ddefnyddwyr y llys gyda nodweddion gwarchoddedig.

Prawf o effaith penodol

61. Cynhaliwyd y profion sgrinio canlynol ar yr opsiwn gorau.

Asesiad ar gystadleuaeth

62. Nid ydym yn rhagweld effaith sylweddol ar gystadleuaeth o ganlyniad i gau Llys Ynadon Castell Nedd. Yn benodol, nid ydym yn disgwyl i gau'r llys gyfyngu ar:

- Nifer y darparwyr gwasanaethau cyfreithiol
- Gallu cyflenwyr i gystadlu
- Cymhelliad cyflenwyr i gystadlu'n frwd

Prawf o'r effaith amgylcheddol ehangach

63. Ni ddisgwylir unrhyw effaith anffafriol ar ansawdd yr aer, ansawdd a chyflenwad dŵr, perygl llifogydd, bioamrywiaeth, tirwedd na sŵn.
64. *A fydd yr opsiwn polisi yn agored i'r effeithiau rhagweledig o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd?* Na.

65. *A fydd yr opsiwn polisi yn arwain at newid yn y costau ariannol, neu effeithiau amgylcheddol neu iechyd mewn perthynas â rheoli gwastraff?* Na.
66. *A fydd yr opsiwn polisi yn cael effaith sylweddol ar ansawdd yr aer?* Bydd unrhyw effaith ar ansawdd yr aer yn fach iawn.
67. *A fydd yr opsiwn polisi yn newid cynllun y tirwedd neu'r treflun yn sylweddol?* Na.
68. *A fydd y cynnig yn newid 1) graddfa llygredd dŵr 2) lefelau tyniad dwr neu 3) perygl llifogydd* 1) Na. 2) Na. 3) Na.
69. *A fydd yr opsiwn polisi yn newid 1) cyfanswm neu amrywiaeth y rhywogaethau byw 2) cyfanswm, amrywiaeth neu ansawdd yr ecosystemau?* 1) Na. 2) Na.
70. *A fydd yr opsiwn polisi yn effeithio ar y nifer o bobl sy'n agored i sŵn neu'r lefelau y maent yn agored iddynt?* Na.

Prawf Effaith Nwyon Tŷ Gwydr

71. Bydd unrhyw effaith ar allyriadau carbon yn fach iawn.
72. Bydd unrhyw effaith ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fach iawn.

Asesiad o effaith ar iechyd

73. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau anffafriol o'r cynnig arfaethedig i gau'r llys.

Asesiad o effaith ar hawliau dynol

74. Mae'r sgrinio cychwynnol ar y prawf effaith hwn yn dangos na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol nac anffafriol yn gysylltiedig â'r cynnig. Rydym wedi ystyried yr effaith posibl dan Erthygl 6 yn benodol – hawl i dreial teg, ond ni ystyrir y bydd y cynigion hyn yn rhwystro mynediad at system gyfiawnder deg ac annibynnol.

Prawf effaith ar gyfiawnder

75. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol dan y dangosydd hwn.

Prawf effaith ar anghenion cefn gwlad

76. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol dan y dangosydd hwn.
77. *Darpariaeth ac argaeledd gwasanaethau:* Bydd cau'r llys yn golygu y trosglwyddir gwasanaethau'r llys i Lys Ynadon Abertawe sydd â swyddogaethau cyffelyb.
78. *Costau cyflawni:* Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol dan y dangosydd hwn.
79. *Hygyrchedd ac isadeiledd:* Rydym wedi amcangyfrif, yn dilyn cau Llys Ynadon Castell Nedd, y byddai'r amser teithio cyfartalog yn cynyddu o 14 munud i 25 munud mewn car, a 34 munud i 59 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yr amcangyfrif cymedrig ar gyfer cost flynyddol y cynnydd hwn mewn amser teithio yw £49,000.
80. *Cyfathrebu:* Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol dan y dangosydd hwn.
81. *Darbodion:* Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol dan y dangosydd hwn.
82. *Anfantais:* Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol dan y dangosydd hwn.

Prawf effaith ar gwmnïau bychain

83. Ar gyfer busnesau bychain (gan gynnwys cyfreithwyr), disgwylwn i'r effaith ymylu ar fod yn gadarnhaol oherwydd bydd y llwyth gwaith mewn un lleoliad.

Prawf effaith ar ddatblygiad cynaliadwy

Cam 1

1. Safonau Amgylcheddol

1a. A oes unrhyw effaith amgylcheddol sylweddol o ganlyniad i'ch cynnig polisi (gweler y Prawf Effaith Penodol Amgylcheddol Ehangach)

Na

Os oes yw'r ateb, nodwch yr effeithiau hyn yn gryno isod:

1b. Os ydych wedi ateb 'oes' i 1a., a oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol yn berthnasol i unrhyw un o'r safonau cyfreithiol a rheoleiddiol a ganfuwyd?

Amh

Os oes yw'r ateb, nodwch yr effeithiau hyn yn gryno isod:

Amh

Os ateboch chi 'Oes' i 1b, ydych chi wedi :

1c. Rhoi gwybod i'r Adran Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros y trothwy, ac wedi cadarnhau gyda nhw sut i gynnwys yr effeithiau'n briodol yn y dadansoddiad costau a buddion?

Amh

1d. Rhoi gwybod i weinidogion pan fo'n angenrheidiol?

Amh

1e. Cytuno ar gamau lliniarol neu gydadferol ble bynnag y bo'n briodol?

Amh

2. Effeithiau rhwng cenedlaethau

2a. Ydych chi wedi asesu'r dosbarthiad dros amser mewn perthynas â'r costau a'r buddion ariannol ac anariannol yng nghyswllt eich cynnig? Gellir cynnwys yr asesiad hwn yn ei Sail Dystiolaeth neu mewn atodiad.

Na

Amh

2b. Ydych chi wedi canfod unrhyw effeithiau sylweddol a fyddai'n disgyn yn anghymesur ar bob cenhedlaeth yn y dyfodol? Os ydych, rhowch ddisgrifiad cryno.

Na

Os ydych chi wedi ateb 'Do' i 2b., ydych chi wedi:

2c. Rhoi gwybod i weinidogion pan fo'n angenrheidiol? Os ydych, rhowch fanylion.

Amh

2d. Cytuno ar gamau lliniarol neu gydadferol ble bynnag y bo'n briodol? Rhowch fanylion.

Amh

Cam 2

3. Pwrpas yr ail gam yw dod â chanlyniadau'r asesiad effaith ynghyd â chanlyniadau cam cyntaf y prawf datblygiad cynaliadwy. Mae'r cwestiynau canlynol i fod i adlewyrchu'r ansicrwydd yn y dadansoddiad cost a buddion, a'ch helpu chi ystyried sut i fynd ymlaen yn dilyn tystiolaeth bellach o gam cyntaf y prawf datblygiad cynaliadwy.

3a. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r balans o ran costau ariannol a buddion yn:

| Gadarnhaol iawn | Gweddol Gadarnhaol | Gweddol Niwtral / cyfartal | Gweddol negyddol | Negyddol iawn |
|-----------------|--------------------|----------------------------|------------------|---------------|
| | x | | | |

3b. Nodwch yn y blwch priodol a yw'r balans o ran costau anariannol a buddion yn debygol o fod yn

| Gadarnhaol iawn | Gweddol Gadarnhaol | Gweddol Niwtral / cyfartal | Gweddol negyddol | Negyddol iawn |
|-----------------|--------------------|----------------------------|------------------|---------------|
| | x | | | |

3c. Nodwch yn y blwch priodol a yw canlyniadau cwestiynau datblygiad cynaliadwy 1-3 yn, debygol o fod yn:

| Gadarnhaol iawn | Gweddol Gadarnhaol | Gweddol Niwtral / cyfartal | Gweddol negyddol | Negyddol iawn |
|-----------------|--------------------|----------------------------|------------------|---------------|
| | | x | | |

3d. Nodwch yn y blwch priodol, a ystyrir balans y costau ariannol ac anariannol, y buddion, a materion cynaliadwy yn gyffredinol yn:

| Gadarnhaol iawn | Gweddol Gadarnhaol | Gweddol Niwtral / cyfartal | Gweddol negyddol | Negyddol iawn |
|-----------------|--------------------|----------------------------|------------------|---------------|
| | x | | | |

3e. Rhowch esboniad dros ganlyniad terfynol 3d, er enghraifft, sut ydych chi wedi cymharu costau a buddion ariannol ac anariannol, a sut ydych chi wedi datrys unrhyw anghysondeb rhwng y canlyniadau costau-buddion a'r canlyniadau datblygiad cynaliadwy.

Yr unig effaith sylweddol ar ddatblygiad cynaliadwy yn y polisi yw'r lleihad mewn allyriadau carbon, a gyfrifwyd yn nhermau costau ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol fel rhan o'r Aseiad Effaith Nwyon Tŷ Gwydr. Bydd effaith ar raddfa lai, ond cadarnhaol, ar y defnydd a wneir o ddŵr a chynhyrchu gwastraff. Felly, ymddengys yn briodol i nodi effaith datblygiad cynaliadwy 'gweddol gadarnhaol'. Adolygir yr effaith hwn eto ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.